Telerau ac amodau: Cystadleuaeth Cyflwynwch Eich Selsig Gorau 2024

Darllenwch a chytunwch â'r telerau ac amodau canlynol cyn cymryd rhan yn y gystadleuaeth:

- Rwy'n cydnabod mai dim i aelodau Porc Blasus mae'r gystadleuaeth hon yn agored, ac rwy'n deall y bydd fy nghais yn cael ei ddiarddel os nad wyf yn aelod.

- Byddaf yn rhoi uchafswm o un cynnyrch fesul categori (6 selsigen wedi'u coginio / 6 selsigen amrwd) yn y gystadleuaeth. Bydd angen anfon y selsig i Hybu Cig Cymru naill ai ddydd Mawrth neu ddydd Mercher (22 – 23 Hydref).

- Os caf fy newis fel enillydd, byddaf yn hapus i gael fy ffilmio ar gyfer astudiaeth achos cynhyrchydd yn ystod y 3 wythnos ganlynol ar ôl cael fy newis yn enillydd.

- Rwy'n rhoi caniatâd i'm henw, enw'r cwmni, enw'r cynnyrch, fideo a delwedd gael eu defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd ac ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol Porc Blasus, a gyda'r wasg a'r cyfryngau os byddaf ar y rhestr fer a/neu os caf fy newis fel enillydd y gystadleuaeth.

- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun 21 Hydref, a chaiff samplau eu dosbarthu ddydd Mawrth neu ddydd Mercher (22 – 23 Hydref). Bydd yr enillwyr yn cael eu hysbysu ddydd Gwener 25 Hydref.

- Rhaid danfon pob selsigen wedi'i hoeri mewn pecynnau addas a gwahanu'r fersiynau amrwd a rhai wedi'u coginio o fewn y pecyn/cynhwysydd.